**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL: DYFODOL CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL YNG NGHYMRU**
**HYDREF 2013**

---

Rwy'n croesawu adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Ddyfodol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o ddifrif i gydraddoldeb a hawliau dynol ac rydym yn mynd i’r afael â'r materion hyn mewn ffordd unigryw yma yng Nghymru.

Yn Llywodraeth Cymru, mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn elfennau annatod o'n deddfwriaeth o’r cychwyn cyntaf, ac yn cael eu hadlewyrchu yn yr egwyddorion sy'n sail i'n gwaith. Mae Cydraddoldeb a Chynhwysiant wedi eu plethu yn ein Rhaglen Lywodraethu a rhoddir sylw penodol iddynt ym Mhennod 8, Cydraddoldeb. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn ofynion allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy hefyd.

Cymru oedd y wlad gyntaf yng Ngwledydd Prydain i greu dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, arwydd pellach o'n hymrwymiad i gydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Dywed ein Rhaglen Lywodraethu y bydd pob un o'n polisïau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a thegwch ac mae'n cynnwys (ym Mhennod 8) cam gweithredu i '*Ymchwilio i sut y gellid sicrhau atebolrwydd mwy cadarn yng Nghymru mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys yng nghyd-destun gorfodi’r dyletswyddau penodol i Gymru*'.

Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn Silk yn nodi cydraddoldeb fel maes ar gyfer datganoli pellach. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen egluro a chryfhau cymhwysedd deddfwriaethol cyfredol y Cynulliad mewn perthynas â chyfle cyfartal. Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Cynulliad eisoes yn meddu ar gymhwysedd i ryw raddau dros yr agweddau ar gydraddoldeb a nodwyd yn nhystiolaeth y Llywodraeth, mae angen sicrhau hyn y tu hwnt i bob amheuaeth. Mae angen gwella'r cymhwysedd hwnnw hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, ac un o brif ddibenion y Bil hwnnw yw diogelu ein cymunedau i’r dyfodol. Bydd yn gwneud hyn drwy bwysleisio rôl sylfaenol cyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran sicrhau bod anghenion cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol, yn ganolog i benderfyniadau'r sefydliadau hyn. Bydd hyn yn ein helpu ni, gyda'n gilydd, i

wneud dewisiadau gwell er mwyn sicrhau dyfodol gwell, mwy cynaliadwy a thecach yng Nghymru. Mae cydraddoldeb yn elfen annatod o hyn ac felly mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle i ni ystyried sut gallwn ni gymryd camau mwy cadarn mewn perthynas â chydraddoldeb yng Nghymru.

Gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a sefydliadau ledled Cymru, credwn yn gryf fod gennym yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd i ddatblygu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymhellach a sicrhau eu bod yn elfen annatod o waith penderfynu a chyflawni ledled y sector cyhoeddus, yn ogystal ag yn y trydydd sector a'r sector preifat. Rwy'n awyddus i ni i gyd gymryd yr awenau a bwrw’r maen i’r wal gyda’n dull gweithredu unigryw yng Nghymru – dull a fydd, yn y pen draw, yn cael effaith hirdymor ar fywydau pobl ledled Cymru.

**Isod ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**

**Dylai Llywodraeth Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus, fel na fyddai dyletswyddau cydraddoldeb penodol sector cyhoeddus Cymru yn methu'n awtomatig pe bai Llywodraeth y DU yn ei ddiddymu.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig i'r Comisiwn Silk y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol diamwys i'r Cynulliad mewn perthynas â thri amcan Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig. Dylai'r cymhwysedd gynnwys y gallu i osod dyletswyddau ar y sector cyhoeddus datganoledig at ddibenion y tri amcan hyn.

Drwy roi cymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol i'r Cynulliad, hyd yn oed pe bai Llywodraeth y DU yn ceisio diddymu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, gallai'r Cynulliad gadw'r ddyletswydd ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru; byddai modd diwygio'r ddyletswydd hefyd i weddu i amgylchiadau datganoledig. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol dros y maes hwn yn rhoi sicrwydd mai'r Cynulliad sy'n rheoli cwmpas y ddyletswydd yn gyfan gwbl, yn cynnwys y rhestr o sefydliadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt a sut mae'r ddyletswydd yn cael ei monitro a'i rheoleiddio. O ganlyniad, bydd ein dull unigryw o fynd i'r afael â chydraddoldeb yn ddiogel a bydd cyfle iddo ffynnu ymhellach. Bydd eglurder a sicrwydd yn y maes hwn o fantais i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk.

**Argymhelliad 2**

**Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o sefydlu cysylltiad mwy amlwg rhwng dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus a'r cymal cynwysoldeb yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn ôl Adran 77(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth arfer eu swyddogaethau.

Yn dibynnu ar ganlyniad cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Silk, rhoddir ystyriaeth bellach i'r cysylltiadau rhwng Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac a77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Goblygiadau Ariannol –** I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk.

**Argymhelliad 3**

**Dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru sefydlu concordat neu gytundeb i greu perthynas fwy ffurfiol rhyngddynt wrth ymdrin â meysydd polisi datganoledig.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion wrthi'n gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yng Nghymru. Y nod yw sefydlu fframwaith ar gyfer perthynas effeithiol rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn bartner allweddol yn y gwaith o werthuso canlyniadau dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yng Nghymru eisoes yn un gadarnhaol ac adeiladol, ac mae'r berthynas hon yn cryfhau'r gwaith o weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i'r Comisiwn gadw'i bresenoldeb cadarn ac unigryw yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu agweddau penodol ar waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn enwedig gwaith yn ymwneud â monitro a gorfodi'r dyletswyddau cydraddoldeb yng Nghymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Nid yw cyllid y Comisiwn gan Lywodraeth y DU yn cael ei neilltuo fesul gwlad. Cyfrifoldeb y Comisiwn yw pennu faint o adnoddau i'w dyrannu i Gymru ond mae gofyniad cyfreithiol ar y Comisiwn i sicrhau bod Pwyllgor Cymru'n cael cyfran ddigonol i gyflawni ei swyddogaethau.

Pan fydd hi'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ariannu gwaith penodol y Comisiwn wrth iddo gael ei wneud gyda'r Ymchwiliad Gwerthfawrogol o'r Gyllideb.

Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru i Ran II y Comisiwn Silk yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad er mwyn gallu newid strwythur atebolrwydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ychwanegu at ei swyddogaethau. Byddai hyn yn adlewyrchu'r cymhwysedd cydraddoldeb estynedig a mwy eglur sy'n cael ei geisio ar gyfer y Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai'n briodol ystyried ariannu'r Comisiwn yn y dyfodol yng nghyd-destun ei atebolrwydd yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**: I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk.

**Argymhelliad 5**

**Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am adroddiad, neu ystyried cyngor, gan grŵp o gyfreithwyr arbenigol, dan arweiniad Simon Hoffman o Brifysgol Abertawe, a fydd yn ystyried pa mor ymarferol fyddai cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.**

**Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru ofyn am adroddiad, neu ystyried cyngor, gan y grŵp polisi, dan arweiniad yr Athro Teresa Rees o Brifysgol Caerdydd, a fydd yn ystyried sut orau y gall y ddyletswydd gyfrannu at y gwaith o ymdrin â'r rhesymau dros dlodi parhaus.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd swyddogion yn cysylltu â Simon Hoffman a'r Athro Teresa Rees ac yn rhoi sylw dyledus i'w barn wrth ystyried ymhellach sut mae mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiad ar dlodi parhaus ac fe'i cyhoeddir yr hydref hwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu â Simon Hoffman a'r Athro Rees pan fydd ar gael.

Mae ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn elfen annatod o'r gwaith o ystyried effaith penderfyniadau ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn yr hirdymor. Mae hyn wedi helpu i lywio datblygiad Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol –** I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk a'u hystyried ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Fil Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 6**

**Fel rhan o'r ymchwil hwn, dylid ystyried ailddrafftio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel y'i nodir ar hyn o bryd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a dylid ystyried hefyd a ellid cynnwys y ddyletswydd yn y dyletswyddau penodol presennol neu a ddylid ei chyflwyno fel dyletswydd ar wahân.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir yn ei chyflwyniad i'r Comisiwn Silk y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael cymhwysedd llawn dros y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i nod o leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig. Mae cysylltiad agos rhwng y ffactorau sydd wrth wraidd tlodi ac anghydraddoldeb ac mae angen mynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati i gyflawni ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'i Hamcanion Cydraddoldeb Strategol statudol gyda'i gilydd. Gellir integreiddio gwaith ar gydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig a gwaith ar anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn fwy effeithiol os oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd yn ymwneud â'r sector cyhoeddus datganoledig ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'i nod o leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn wrth i ni ddisgwyl canlyniad y Comisiwn Silk.

Mewn gohebiaeth ddiweddar rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r dymuniad i gadw Rhan 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi ei fynegi'n glir, ochr yn ochr â'r pwerau i'w chychwyn.

**Goblygiadau Ariannol –** I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk

**Argymhelliad 7**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaethau gwrthdlodi a chydraddoldeb yn gydnaws cyn cyflwyno unrhyw ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Drwy asio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, rydym yn parhau i gryfhau'r ffordd y mae dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb yn rhan o'n tybiaethau am dlodi, er mwyn i ni allu llunio'r ymyriadau mwyaf effeithiol, a sicrhau bod y ffordd y cânt eu gweithredu yn cael ei haddasu i ystyried anghenion ac amgylchiadau amrywiol pobl. Mae adrannau wedi rhoi manylion camau gweithredu ac ymyriadau sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau'r amcanion cydraddoldeb. Bydd y ffordd y mae'r rhain yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi wedyn yn cael ei hegluro'n glir mewn adroddiadau blynyddol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd yr argymhelliad hwn yn defnyddio adnoddau cyfredol.

**Argymhelliad 8**

**Dylai Llywodraeth Cymru geisio pwerau ychwanegol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol i adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel y nodwyd yn yr argymhelliad cyntaf uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig i'r Comisiwn Silk y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol clir i'r Cynulliad mewn perthynas â thri amcan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig. Cyfrifoldeb y Cynulliad yn y pen draw fydd penderfynu a yw am ddefnyddio'i gymhwysedd i roi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** I'w pennu gan swyddogion yn dilyn canlyniad y Comisiwn Silk.